

LLYWODRAETH CYMRU

Datganiad Gwrandawriad Archwiliad

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd
Gwynedd a Môn**

Sesiwn Gwrandawriad 13: Sipiwn a Theithwyr

30th Medi 2016

1. A yw'r Cynllun yn seiliedig ar asesiad cadarn o anghenion llety sipsiwn a theithwyr?

a. A oes asesiad digonol o anghenion dros gyfnod y Cynllun?

Materion i'r awdurdod cynllunio lleol i'w hesbonio yw'r fethodoleg a'r asesiadau ar gyfer pennu anghenion Sipsiwn a Theithwyr am lety, fel y'u gosodir allan yn yr Astudiaeth ddrafft o Anghenion Sipsiwn a Theithwyr. Mae Llywodraeth Cymru'n deall bod Llywodraeth Cymru (Isadran Dyfodol Tecach) wrthi'n ystyried yr astudiaeth ar hyn o bryd a bydd yn debygol o gael ei chymeradwyo gan y Gweinidog ym mis Medi 2016.

Lefel yr angen – Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016 a Chynllun Adnau Cyfansawdd (Tudalennau 161 – 162)

Mae'r asesiad drafft yn nodi bod angen 15 o leiniau parhaol - 4 ar Ynys Môn ac 11 yng Ngwynedd. Mae'r Asesiad yn nodi hefyd bod angen 3 o safleoedd aros dros dro, 2 ar Ynys Môn ac 1 yng Nghaernarfon. Ni nodwyd bod angen safle tramwy parhaol.

Fodd bynnag, yr hyn sy'n aneglur yw ai angen ar gyfer cyfnod llawn y cynllun yw hwn yntau y cyfnod o bum mlynedd tan 2021. Er enghraifft, dengys Tabl 3 yr Asesiad bod angen heb ei ddiwallu o 11 o leiniau ar gyfer 'cyfnod y cynllun' yng Ngwynedd a 4 llain ar Ynys Môn. Er hynny, dywed paragraff 7.4.90 y cynllun cyfansawdd bod yr angen ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd. Hefyd, ymddengys bod paragraff 2.2 Papur Testun 1B yn cadarnhau bod yr angen ar gyfer cyfnod y cynllun. Mae angen eglurder.

Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r awdurdod yn gallu crisialu'r sefyllfa er mwyn inni allu gweld a yw'r cynllun wedi sicrhau darpariaeth ddigonol i ddelio â'r lefel o angen nad yw'n cael ei ddiwallu.

Dywed Paragraff 17 Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 30/2007 'Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr' *"mewn achosion lle ceir asesiad o angen sydd heb ei ddiwallu am lety Sipsiwn a Theithwyr yn yr ardal, dylai awdurdodau cynllunio lleol glustnodi digon o safleoedd mewn CDLlau i sicrhau bod modd diwallu'r gofynion llain dynodedig at ddefnydd preswyl a dros dro."*

b. A yw'r Cynllun yn gwneud darpariaeth ddigonol i fodloni'r angen a nodwyd yn achos sipsiwn a theithwyr i gael cymunedau lleiniau parhaol? A yw'r ddarpariaeth wedi'i lleoli'n briodol i fodloni'r anghenion hynny?

Angen Parhaol

O ran Gwynedd, nodwn fod Polisi TAI12 yn dyrannu safle parhaol i ddiwallu'r angen dros gyfnod y cynllun (o gael y gymeradwyaeth uchod). Bydd gofyn i'r awdurdod brofi bod y safle'n addas, bod modd ei gyflenwi a'i fod yn cydweddu â PCC, yn enwedig o safbwynt perygl llifogydd (categori perygl llifogydd C2).

Y polisi o ran Ynys Môn yw y caiff yr angen am 4 llain ei ystyried mewn ymarfer chwilio am safleoedd i ddiwallu'r angen. Nodwn fod Papur Testun newydd 18B (paragraffau 3.4 a 3.5) yn dweud mai'r farn a ffeirir gan y Cyngor yw dewis Tir ym Mhenhesgyn fel 'dyraniad posibl' i ddiwallu'r angen a nodwyd, hynny'n amodol ar ganlyniad gwaith pellach ar faterion iechyd a diogelwch a'r trafodaethau â pherchennog tir cyffiniol.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw Ynys Môn wedi darparu digon i ddiwallu'r angen a nodwyd (4 llain). Er ein bod yn nodi'r bwriad i ddyrannu safle yn y dyfodol, mae angen i'r Cyngor esbonio'r amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn a phryd y caiff safle ei ddyrannu. Sut bydd yr amserlen yn cymharu â'r amserlenni yn yr Asesiad? A geir hyd i safle ac a gyflenwir safle mewn pryd?

Safleoedd Aros Dros Dro

O safbwynt dyraniadau, nid yw Safleoedd Aros Dros Dro'n gorfod cael eu dyrannu fel rhan o'r broses cynllunio datblygu. Bydd yn fater, yn hytrach, i'r awdurdod ei ystyried ar sail amgylchiadau lleol, er y bydd dal gofyn i'r awdurdod wneud ei ddyletswydd statudol o dan Adran 103 y Ddeddf Dai yn hyn o beth.

Fe fyddem yn disgwyl i'r CDLI gynnwys ymrwymiad i ddarparu manau aros dros dro yn unol â'r cyfiawnhad rhesymegol. Fodd bynnag, nid oes angen nodi dyraniadau penodol yn y cynllun gan mai natur y safleoedd dros dro yw eu bod yn symud yn ôl y gofyn. Gan y bydd y CDLI yn para am 15 mlynedd, nid oes synnwyr dyrannu safle dros dro os mai dim ond am 28 diwrnod ar y tro y caiff ei ddefnyddio. Serch hynny, diben safle dros dro yw'r lliniaru problemau sy'n gallu codi mewn gwersylloedd. Felly, dylai'r cyfiawnhad rhesymegol esbonio y caiff safleoedd dros dro eu darparu ac y dylai'r Cyngor eu henwi ond nid fel rhan o broses y CDLI. Mae hyn yn wahanol i'r drefn sy'n rhaid ei dilyn pan fydd y Cyngor yn datblygu safle preswyl parhaol neu safle tramwy. Mae'r rheini'n ddefnyddiau tymor hir ac mae angen polisi arnynt a'u dyrannu.

c. A yw'r Cynllun ar y cyd â chynlluniau awdurdodau cyfagos yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer safleoedd tramwy?

Cwestiwn i'r awdurdod i'w ateb yw hwn.

d. A ellir darparu tir a nodir i fodloni anghenion sipsiwn a theithwyr mewn ffordd amserol?

Gweler cwestiwn (b) blaenorol. Mae angen i'r awdurdod sicrhau bod y safleoedd yn cael eu dyrannu a bod modd eu cyflenwi o fewn yr amserlen i ddiwallu'r angen.

2. A yw'r fframweithiau monitro a gweithredu yn ymwneud â llety sipsiwn a theithwyr yn gadarn, ac yn ddigon ymatebol i newid?

a. A yw'r Cynllun yn cynnwys mecanweithiau a fydd yn galluogi nodi unrhyw danddarpariaeth a sbarduno ymateb priodol?

Nodwn fod y fframwaith monitro diwygiedig yn nodi'r sbardun ar gyfer cyflenwi safleoedd aros parhaol a dros dro yn unol â'r Aseiad. Fodd bynnag, ni nodir nifer y lleiniau; ond fe ddylid. Nid yw'r fframwaith monitro'n cyfeirio o gwbl at y dyraniad arfaethedig fel y dylai wneud. Hefyd, mae'r sail tystiolaeth yn aneglur ynghylch pryd yn union y bydd angen cyflenwi'r 11 o leiniau yn Llandygai. Er enghraifft, a gaiff y safle ei ddarparu bob yn ddaid neu i gyd yr un pryd?

Er gwaethaf ein sylwadau blaenorol, nid oes cyfeiriad o gwbl at yr angen i chwilio, dyrannu a chyflenwi safle o 4 llain ar Ynys Môn. Dylai'r awdurdod ddweud pryd y caiff safle ei gyflenwi i ddiwallu'r angen, a sut y bydd yr amserlen hon yn cefnogi'r angen. Bydd eglurder yn hyn o beth yn helpu'r fframwaith monitro. Bydd hwnnw'n gorfod cael ei newid i gynnwys dangosyddion a sbardunau monitro cadarn.

Mae Llywodraeth Cymru'n credu y dylai'r fframwaith monitro gynnwys dangosyddion a sbardunau sy'n benodol i safleoedd, a'u cysylltu â chynnydd a mesurau lliniaru. Bydd hynny'n sicrhau bod y cynllun yn gallu ymateb yn gyflym ac effeithlon os cyfyd yr angen am ragor o leiniau.

Mae Llywodraeth Cymru'n barod i weithio gyda'r CDLI i wella'r fframwaith, cyn y gwrandawriad penodol.

Unrhyw faterion eraill

Mae Llywodraeth Cymru yn ei ymateb i'r Cynllun Adnau a'r Newidiadau â Ffocws wedi gwneud sawl sylw ynghylch fframwaith y polisi safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Rydyn ni'n cymryd, gan nad oes cwestiynau wedi'u gofyn, eu bod wedi'u trin yn ddigonol yn y drafodaeth.